

Rydyn ni wrth ein bodd o gyhoeddi y bydd y cogydd enwog, **Jack Stein**, yn ymuno â ni yng **Ngŵyl Bwyd a Diod Caerffili ddydd Sadwrn 27 Ebrill** i ddarparu arddangosiadau coginio cyfareddol!

Ac yntau'n dilyn yn ôl troed ei dad, y cogydd arobryn Rick Stein, Jack yw Cyfarwyddwr Coginio bwytai Rick Stein ac mae e wedi ymddangos ar y teledu mewn sioeau fel *Steph's Packed Lunch* ar Channel 4 a *Cooking with the Stars* ar ITV.

Bydd Jack yn tynnu dŵr o'ch dannedd yng Ngŵyl Bwyd a Diod Caerffili eleni gyda thri arddangosiad coginio 45 munud o hyd. Bydd sesiwn cwrdd a chyfarch byr ar ôl pob un.

Mae llyfr Jack, *Jack Stein's World on a Plate*, ar gael i'w brynu ar-lein ac mewn llawer o siopau llyfrau, felly mae croeso i chi ddod â'ch copi eich hun gyda chi i gael ei lofnodi!

Rydyn ni'n edrych ymlaen at groesawu Jack i Gaerffili! Gwnewch yn siŵr eich bod chi'n dod draw am ddiwrnod gwych o fwyd a hwyl!